

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 25/10/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

John Brinley Jones (Cad)	David Andrew Parry	Greta Hughes	Claire Russell-Griffiths
Gwenllian Davenport Hughes	Ian Goronwy Williams	Thomas Victor Jones	William Roger Jones
William Penri Jones	Alan Harper-Smith	Ann L Williams (Cyfieithydd)	Pat Humphreys (Clerc)

### **Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19**

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llawn i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

#### **1. Ymddiheuriadau**

Alaw Ceris.

#### **2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**

Dim.

#### **3. Cofnodion Pwyllgor 13/09/2021**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: David Andrew Parry Eilio: Ian Goronwy Williams

#### **4. Unrhyw Fater Brys**

Cartref Pwyliaid Penrhos – Cynghorydd Angela Russell

Mae y Cynghorydd Angela Russell wedi ymuno hefo'r cyfarfod i roi esboniad ar y mater yma. O ganlyniad i gyfarfod hefo Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd bwriedir cynnal digwyddiadau i ymwneud â safle cartref y pwyliaid yn Penrhos a beth a fwriedir ei wneud yno. Cyfle i'r cyhoedd weld y cynlluniau cyn iddynt gael eu rhoi fewn i'r adran gynllunio yw'r digwyddiadau yma ac fe fyddant yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd ac mewn tair gwahanol leoliad sef Penrhos, Llanbedrog a Pwllheli gyda'r dyddiadau i'w cadarnhau. Ar hyn o bryd y lletyau cysgodol sydd o dan sylw ac nid y cartref henoed, gyda cynlluniau i'w moderneiddio a'u gwneud yn fwy ac mae'r cynghorydd lleol yn gofyn am bresenoldeb y cynghorwyr yn y digwyddiad yn Llanbedrog er mwyn iddynt gael rhoi eu sylwadau ar y datblygiad bwriededig. Pan fydd cadarnhad o'r dyddiadau wedi ei gael fe wnaiff y cynghorydd lleol adael i'r clerics wybod. Fe fydd cynrychiolaeth o Clwyd Alun, Betsi Cadwalader a Cyngor Gwynedd yn y digwyddiadau yma i ateb cwestiynnau ynglŷn â'r datblygiad.

Diolchodd y cadeirydd i'r cynghorydd lleol am y wybodaeth.

#### **5. Datblygiad Solar PV Lôn Pin**

Mae'r Cynghorydd Angel Russell yn aros yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma hefyd.

Cafodd y cadeirydd ymweliad gan Chris Bale o South West Solar Parks ynglŷn â datgilygu fferm solar ar Lôn Pin. Mae ebost Chris Bale wedi cael ei yrru i'r aelodau gyda manylion o'r bwriad sy'n cynnwys mapiau a manylion technegol er mwyn cael eu barn ar y bwriad. Wedi

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 25/10/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

cael trafodaeth yr un yw'r pryderon gan bawb sef y lleoliad gan ei fod yn mynd i amharu ar drigolion cyfagos. Derbyniwyd hefyd ebost gan berson sydd yn byw wrth ymyl y datgblygiad yn atodi llythyr gan Acland Bracewell gyda rhestr o gwestiynnau y dylid eu gyrru i'r cwmni ac yn gofyn os ydi hi'n bosibl i'r Cyngor Cymuned anfon y cwestiynnau iddynt ar ran y trigolion. Mae Chris Bale yn gofyn am y cyfle i arddangos y cynlluniau i'r cyhoedd mewn diwrnod agored er mwyn ateb unrhyw gwestiynnau sydd ganddynt.

Penderfyniad: Y clerc i ysgrifennu at Chris Bale hefo'r cwestiynnau sydd wedi cael eu paratoi yn barod gan Acland Bracewell a rhai ychwanegol gan aelodau Cyngor Cymuned Llanbedrog a gofyn am ymateb ganddynt cyn pwyllgor mis Tachwedd er mwyn i'r aelodau gael trafodaeth bellach ar yr atebion cyn penderfynnu os yw'r Cyngor Cymuned am eu gwahodd i'r Neuadd am ddiwrnod agored.

Cynnig: Alan Harper-Smith Eilio: William Penri Jones

### **6. Sylfaen y Delw ar Mynydd Tir Cwmwd**

Tra 'roedd Thomas Victor Jones ar y Mynydd yn cyfarfod swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru fel sylwodd fod sylfaen y Delw angen ei drwsio, mae o wedi codi'r mater yma o'r blaen ond ni chafodd ei drwsio yr adeg hynny. Ateggodd David Andrew Parry fod angen pren newydd o amgylch y sylfaen hefyd gan ei fod wedi prydru a bolltau yn sdicio allan ohonno sydd yn berygl iawn. Gan fod gwaith adeiladu yn mynd ymlaen yn y Plas tybed a fuasai'r adeiladwr yn mynd i fyny i drwsio'r sylfaen yr un adeg ac mae'r cadeirydd am ofyn iddynt.

### **7. Cais i gefnogi'r alwad ar Lywodraeth Cymru i reoli'r farchnad dai – Cymdeithas yr Iaith**

Derbyniwyd ebost gan Carol Jenkins Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith yn dweud fod Osian Jones un o aelodau Cymdeithas yr Iaith yn bwriadu beicio o Gaernarfon i Gaerdydd rhwng 11<sup>eg</sup> a 13<sup>eg</sup> o Dachwedd i dynnu sylw at yr argyfwng tai sydd yn effeithio ar gymunedau ar draws Cymru. Maent yn atodi copi o llythyr y bydd Osian yn ei gario hefo fo ac yn ei gyflwyno i gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru wedi iddo gyrraedd Caerdydd ac maent yn gofyn i Cyngor Cymuned Llanbedrog drafod y llythyr a rhoi gwybod iddynt os ydi'r cynghorwyr yn hapus i roi eu henwau i'r llythyr.

Penderfyniad: Pasiwyd i gefnogi'r llythyr ac i ychwanegu Cynghorwyr Cyngor Cymuned Llanbedrog i'r llythyr.

Cynnig: David Andrew Parry Eilio: William Penri Jones

### **8. Cyllideb 2022-2023**

Mae'r clerc wedi paratoi cyllideb drafft ac wedi ei anfon i'r cadeirydd i gael golwg arni ynghyd â ffigyrau gwariant gwirioneddol ar gyfer 2020-2021 a ffigyrau gwariant gwirioneddol hyd yn hyn ar gyfer 2021-2022 ond nid yw'r cadeirydd wedi cael cyfle i gael golwg arnynt cyn y pwyllgor.

Penderfyniad: Ei roi ar agenda mis nesaf ac ar ôl i'r cadeirydd gael golwg ar y gyllideb y clerc i'w anfon i'r aelodau er mwyn eu pasio ym mhwyllgor mis nesaf gan fod y praesept i fod i fewn cyn pwyllgor Ionawr ac nid oes cyfarfod ym mis Rhagfyr. Os oes rhywbeth yn codi yna mae angen gadael i'r clerc wybod cyn gynted a phosibl er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol cyn y pwyllgor nesaf.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 25/10/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

## 9. Fframwaith Adfywio Cyngor Gwynedd – Ardal Ni 2035 (Cyngor Gwynedd)

Derbyniwyd ebost nôl ym mis Awst ynglŷn â Fframwaith Adfywio Cyngor Gwynedd ac fe flaenyrwyd yr ebost i'r aelodau fel y gofynwyd yn yr ebost ond ni chafwyd ymateb felly mae cais arall wedi dod gan Cyngor Gwynedd i'r aelodau ei ail ystyried. Y bwriad yw fod Cyngor Gwynedd am gynnal sgysiau hefo Cynghorau Cymuned a Thref am gryfderau, blaenoriaethau a chyfleoedd yn eu cymunedau fel rhan o brosiect 'Ardal ni 2035' ac fe fydd y sgysiau yma yn cynorthwyo cymunedau i adnabod y materion hynny fydd angen sylw yn y 10-15 mlynedd nesaf i wella'r ardal yn economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol.

Penderfyniad: y clerc i anfon y wybodaeth i'r aelodau eto drwy ebost ac i bawb sydd a diddordeb mewn cymeryd rhan i gysylltu hefo'r clerc yn y dyddiau nesaf er mwyn iddi anfon eu manylion i Alys Lloyd Jones Cyngor Gwynedd.

## 10. Llwybrau

Cafwyd diweddariad ar y llwybrau.

Llwybr Rhif 6 o Henllys Isaf i Henllys Uchaf ac i fyny i'r Foel.

Rhoddwyd cwyn i fewn gan y clerc fod y camfeydd ar y llwybr yma wedi eu difrodi ac fe dderbyniodd ymateb gan Dewi Wyn Owen yn dweud fod y camfeydd concriid ar y llwybr yma angen eu newid gan nad ydynt i safon briodol ac mae o am fynd ar ôl y tiffeddiannwyr i weld os ydynt yn fodlon derbyn giatiau yn eu lle ac os byddant mae o am geisio eu newid cyn gynted â phosibl wedyn.

Llwybr Tân Mynydd Tir Cwmwd

Cafodd Thomas Victor Jones gyfarfod hefo swyddog o Cyfoeth Naturiol Cymru ar y mynydd i ddangos iddo lle 'roedd y llwybr tân ac mae o wedi tynnu lluniau ac am eu pasio mlaen i'w uwch swyddog er mwyn iddynt wneud penderfyniad. Mae Meirion Evans swyddog arall o Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ffonio'r clerc i'w diweddarau ar y mater ac am ffonio unwaith y bydd penderfyniad wedi ei wneud ar y mater.

Cafwyd diweddariad gan y clerc am y cwynion a dderbyniwyd yn y pwyllgor diwethaf sydd wedi cael eu pasio ymlaen i Cyngor Gwynedd sef y gordyfiant ar y palmentydd ac mae Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn ôl i'r clerc yn dweud bod yr Archwiliwr Priffyrdd wedi trafod efo perchnogion y tir ac maent wedi cytuno i wneud y gwaith mor fuan â phosibl. Hefyd y llwybr sydd yn mynd o llwybr drwy'r Nant i Cae Hendy i lawr tuag at bungalo rhif 25, mae rhywun wedi plannu coed ar hyd y ffens ac maent yn amharu ar y llwybr ac mae swyddog Cyngor Gwynedd wedi ymateb i'r clerc ei fod wedi gofyn i'r criw torri gwair i drin efo'r gordyfiant sydd yn tyfu i'r llwybr a gobeithio y bydd yn cael ei wneud reit sydyn.

## 11. Y Fynwent

### **Ebost Iwan Hughes**

Derbyniwyd ebost gan Iwan Hughes yn dweud ei fod wedi sylwi nad yw giatiau'r fynwent wedi cael eu paentio ac mae'r clerc wedi egluro iddo am y broblem mae'r Cyngor Cymuned wedi ei gael hefo'r gweithiwr achlysurol a'u bod wedi ffendio rhywun arall erbyn hyn i wneud y gwaith a bod peintio'r giatiau ar y rhestr waith.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 25/10/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Mae o hefyd yn gofyn os yw'r gwaith ar y fynwent newydd wedi cael ei gychwyn ond yn y cyfamser mae'r cadeirydd wedi siarad hefo Iwan Hughes ac wedi egluro'r sefyllfa iddo sef ein bod yn y broses o newid yr enwau ar y gweithredoedd sydd dal heb ei wneud oherwydd bod swyddfa Cofrestrfa Tir yn cymeryd mwy o amser i ddelio gyda materion ar hyn o bryd. Mae angen hefyd rhoi cais cynllunio i fewn eto gan fod y cais gwreiddiol wedi rhedeg allan a gan nad yw'r cynlluniau wedi newid bydd posibl rhoi y ffurflen gais a'r cynlluniau gwreiddiol i mewn eto.

Penderfyniad: Y cadeirydd i yrru y cynlluniau gwreiddiol i'r aelodau drwy ebost er mwyn ail gyflwyno'r cais cynllunio gwreiddiol i mewn i Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd cyn gynted a phosibl.

Cynnig: John Brinley Jones    Eilio: William Penri Jones

### **12. Cae Chwarae**

Yn dilyn y pwyllgor diwethaf fe anfonodd y clerc ebost at Scottish Power yn egluro bod y cadeirydd a'r is-gadeirydd wedi dod ar draws y wifren drydan dan ddaear mewn lle nad oedd i fod ac os y bysa rhywun yn gallu dod i gyfarfod safle i edrych i mewn i hyn. Fe gysylltodd rhywun yn ôl yr wythnos ddiwethaf ac mae cyfarfod wedi ei drefnu hefo'r cadeirydd a swyddog o Scottish Power bora yfory i weld yn union lle mae'r wifren yn mynd o dan ddaear. Gofynnodd Claire Russell Griffiths os y bysa nhw yn gallu edrych ar y ddau wifren sydd yn y cae chwarae oherwydd mae yna wifren arall yna hefyd ac mae angen gwybod lleoliad y ddau. Mae'r cadeirydd yn gallu aros tan 11.00yb ac fe addawodd yr is-gadeirydd gymeryd trosodd am 11.00yb os y bydd angen ond y bydd o gorfod mynd amser cinio. Fe fydd rhaid gwneud yn siwr bod y map sydd gan y Cyngor Cymuned yn gywir a lleoliad y ddwy wifren yn gywir ar y map. Bydd diweddariad gan y cadeirydd yn y pwyllgor nesaf.

### **13. Coronavirus covid-19** – Diweddariad & Polisi Iechyd a Diogelwch

Dim diweddariad felly penderfynwyd i gario ymlaen i gyfarfod ar zoom.

### **14. Neuadd y Pentref**

Mae'r Neuadd wedi cael cytundeb trydan da iawn ers tua 5 mlynedd bellach ond derbyniodd y cadeirydd lythyr yr wythnos diwethaf yn dweud fod y prisiau yn mwy na dyblu. Maent yn codi eu prisiau o 14.5c i 29c y kw a'r gost dyddiol yn mynd i fyny o 0c i 40c y diwrnod. Mae'r cadeirydd wedi cysylltu gyda'r cwmni ac maent wedi dod a'r prisiau i lawr iddo ychydig sef y gost ddyddiol i lawr i 0c y diwrnod a'r kw i lawr i 27c. O gymhau a cwmnïau eraill mae'r prisiau yma yn ddigon teg felly fe fydd rhaid eu derbyn. Gofynnodd Alan Harper-Smith os ydym yn talu 'climate levvy' ar y Neuadd oherwydd mae'r 'climate levvy' yn 17.5% ac os ydym wedi bod yn ei dalu a ddim i fod ei dalu mae modd cael ad-daliad gan y cwmni. Mae'r cadeirydd am ofyn y cwestiwn yma i'r cwmni. Gofynnodd Thomas Victor Jones os oes rhywbeth i'w gael am ei fod yn elusen ac mae'r cadeirydd wedi gofyn ond dim oedd yr ateb.

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 25/10/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

## Taliadau wedi eu Cymeradwyo

Cyflog y Clerc – Pat Humphreys	£366.53
Ann Llwyd – Cyfieithydd	£160.00
Cyngor Gwynedd – Canolfan y Gwystl – Tybiau blodau Llanbedrog	£142.00
Ad-daliad Zoom – Pat Humphreys	£143.88

## Taliadau wedi eu Derbyn

### Ceisiadau Cynllunio

Dim.

### Gohebiaeth

1. Clerks & Council Direct – Newyddlen
2. Un Llais Cymru – Hyfforddiant
3. CLILC - 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan
4. Llywodraeth Cymru - Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
5. GIG - AP Covid-19
6. Llywodraeth Cymru - Diweddariad - Cofio 2020
7. Llywodraeth Cymru - 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
8. CLILC - 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws
9. Panel Annibynnol Cymru - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021
10. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru - Cylchlythyr Medi 2020
11. Un Llais Cymru - Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru
12. Un Llais Cymru – Gwybodaeth am clyw
13. Un Llais Cymru - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21

### Cais am gyfraniad

1. Macmillan Cancer Support – cais am gyfraniad ariannol

Gofynnodd y cadeirydd os yw'r clerch wedi cael llyfr cofnodion newydd ac mae hi wedi gofyn i Ashley Hughes ac yn disgwyl ymateb.

Cafwyd cais gan Thomas Victor Jones i yrru cerdyn yn llongyfarch Miriam Sautin Isfryn Llanbedrog am ennill y fedal ddrama yn Eisteddfod Genedlaeth Yr Urdd ac mae'r clerch am drefnu fod hyn yn digwydd.

Gofynnodd David Andrew Parry beth sy'n digwydd hefo'r gweithiwr achlysurol newydd a pa bryd mae o yn mynd i ddechrau ar y gwaith. Mae'r cadeirydd wedi cysylltu hefo fo heno ac am drefnu eu bod yn mynd drwy'r rhestr waith cyn gynted a phosibl. Cafwyd cadarnhad fod y gweithiwr achlysurol blaenorol wedi anfon anfoneb i'r Cyngor Cymuned ac mae wedi cael ei dalu am waith ar y llwybr zig zag a rhoi arwyddion 'dim ysmegu' i fyny.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.33 y.h.